Y ci oedd yn meddwl ei fod yn lew

Bod yn chi eich hun

I lawr yn y ddinas fawr roedd ci yn byw gyda'i frodyr a'i chwiorydd. Roedd ganddo ddau frawd a thair chwaer. Yn y tŷ roedd ei frodyr a'i chwiorydd yn byw ond roedd ef yn byw yn yr ardd. Roedd o'n credu ei fod yn lew ac allan yn yr awyr agored roedd llewod yn byw.

Roedd y cŵn yn bwyta gyda'i gilydd ond roedd ef yn bwyta gwair yn yr ardd – oherwydd dyna oedd llewod yn ei fwyta. Roedden nhw i gyd yn cysgu efo'i gilydd ond roedd ef yn cysgu o dan y goeden fawr yng ngwaelod yr ardd – oherwydd dyna lle roedd llewod yn byw. Roedden nhw i gyd yn chwarae efo'i gilydd ond roedd ef yn chwarae dal ei gysgod ei hun pan fyddai'r haul yn tywynnu – oherwydd dyna oedd llewod yn ei wneud. Roedd y cŵn eraill i gyd yn chwarae'n hapus efo'i gilydd ond roedd ef yn ysgyrnygu a chwyrnu ar bawb oedd yn mynd heibio'r ardd – oherwydd dyna oedd llewod yn ei wneud.

Un diwrnod dywedodd wrth ei frodyr a'i chwiorydd, "Dydw'i ddim am fyw efo chi ddim mwy. Rydw'i am fynd i ymuno â'r syrcas yn y dref – oherwydd dyna mae'r llewod yn ei wneud." I ffwrdd â fo i ymuno â'r syrcas yn y dref. "Mi hoffwn i ymuno â'r syrcas" meddai wrth berchennog y syrcas. "Wrth gwrs" meddai yntau, "mae croeso mawr i ti ymuno efo ni. Rwy'n siŵr y byddi'n hapus iawn efo'r anifeiliaid eraill."

Yn ystod y dydd roedd yn cerdded yn araf a hamddenol o gwmpas y syrcas – oherwydd dyna oedd llewod yn ei wneud. Yn ystod y nos roedd yn cysgu ar lwch lli – oherwydd dyna oedd llewod yn ei wneud. O dro i dro, byddai'n chwarae efo bal_ns – oherwydd dyna oedd llewod yn ei wneud.

Un diwrnod aeth i mewn i'r babell fawr ac yno gwelodd LEW MAWR, MAWR. "Helo'r llew mawr " meddai, "ga i chwarae efo ti?"

"Beth, ti yn chwarae efo fi" meddai'r llew mawr gan agor ei

geg a dangos ei ddannedd mawr miniog.
"Pam na chai chwarae efo ti? Rwyt ti yn lew ac mi ydw innau'n lew."
"Ti.....yn lew. Nid llew wyt ti ond ci," meddai'r llew dan chwerthin dros y lle.
"Beth, ci ydw i? Hwre" meddai
Rhedodd o'r syrcas ar hyd y ffordd yn ôl at ei frodyr a'i chwiotydd.
"Ci ydw i" meddai wrthyn nhw.
Mae ci sy'n gwybod ei fod yn gi yn byw gyda'i frodyr a'i chwiorydd. Mae'n bwyta, cysgu a chwarae efo nhw bob dydd.

O Dduw, wnei di ddangos i mi sut fath o blentyn ydw i mewn difri. Amen.

- Pam nad oedd y ci yn byw efo'i frodyr a'i chwiorydd?
- Pa bryd y daeth y ci i wybod mai ci oedd ac nid llew?
- Beth ddigwyddodd wedyn?